

Annwyl riant/gofalwr

Hoffwn roi rhagor o wybodaeth i chi am y trefniadau gofal plant brys dros weddill y tymor hwn a'r trefniadau ar gyfer 'Dal fyny, dal ati i ddysgu a pharatoi'.

Er mwyn darparu ar gyfer cynifer o blant yn yr ysgolion, mae'r holl awdurdodau lleol wedi rhoi trefniadau newydd ar waith i wneud yn siŵr bod goruchwyliaeth briodol ar gael i'r holl blant cymwys yn yr ysgol.

Trefniadau yn yr ysgolion dros dymor yr haf

Oherwydd problemau staffio posibl mewn nifer o ysgolion yn ystod yr wythnos yn dechrau ddydd Mawrth 20 Gorffennaf, bydd holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn cau ddydd Gwener 17 Gorffennaf.

Nid oedd hwn yn benderfyniad hawdd i Ben-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, diogelwch ein disgyblion a'n staff yw'n prif flaenoriaeth ac rwyf wedi fy narbwyllo mai dyma'r penderfyniad gorau o safbwynt lles y ddau grŵp.

Rwyf wedi gofyn i ysgolion ailystyried eu cynlluniau ar gyfer 'Dal fyny, dal ati i ddysgu a pharatoi' ac i ad-drefnu eu darpariaeth ar eu safleoedd i gyd-fynd ag amserlen tair wythnos. Bydd yr ysgolion yn ceisio sicrhau bod pob disgybl yn cael dau ddiwrnod llawn yn yr ysgol, yn unol â'r bwriad gwreiddiol.

Rhaid i mi danlinellu mai'r rhieni/gofalwyr sydd i benderfynu a ddylai eu plant ddod i'r ysgol yn ystod mis Mehefin a Gorffennaf ac na chânt eu cosbi os bydd eu plant yn absennol.

Bydd ysgol eich plentyn yn cysylltu â chi cyn bo hir i gadarnhau'r trefniadau.

Trefniadau gofal plant dros wyliau'r haf

O heddiw, ddydd Llun 22 Mehefin ymlaen, byddwn yn gofyn i nifer o'r 3000 o staff ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr ddarparu gofal plant brys i blant gweithwyr allweddol (gan gynnwys staff ysgolion) a hynny yn eu hysgolion eu hunain.

Sylwch nad oes cynlluniau i ddarparu gofal plant brys i blant gweithwyr allweddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ystod gwyliau'r haf (hy rhwng dydd Llun 20 Gorffennaf a dydd Llun 31 Awst, gan gynnwys y ddau ddyddiad hynny).

Mae'n bwysig, felly, fod rhieni/gofalwyr sy'n weithwyr allweddol yn gwneud trefniadau gofal plant gwahanol i'w plant eraill o ddydd Llun 20 Gorffennaf ymlaen.

Hefyd, fel y dywedwyd eisoes, mae angen i rieni/gofalwyr gofio mai dim ond rhwng 8.30am a 4.30pm y bydd gofal plant brys ar gael i deuluoedd cymwys, a hynny yn eu hysgolion eu hunain, rhwng dydd Llun 22 Mehefin (tan ddydd Gwener 17 Gorffennaf).

Darpariaeth 'Dal fyny, dal ati i ddysgu a pharatoi' i ddisgyblion meithrin

O ddydd Llun 29 Mehefin ymlaen, bydd ysgolion hefyd yn trefnu sesiynau ‘Dal fyny, dal ati i ddysgu a pharatoi’ i’w dysgwyr.

Fe wyddoch ein bod ni ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi penderfynu cynnig dau ddiwrnod llawn i bob disgybl ‘Dal fyny, dal ati i ddysgu a pharatoi,’ ac eithrio plant sy’n codi’n tair oed (yn eu blwyddyn gyntaf yn y dosbarth meithrin).

Er y bydd hyn yn siom i rai, rwy’n siŵr y byddwch yn deall bod yn rhaid i’r awdurdod lleol, yn ystod cyfnod mor anodd, ystyried y posibilrwydd y bydd prinder staff yn yr ysgolion ac, felly, na fyddai modd sicrhau lefelau staffio diogel.

Yn y cyfamser, bydd y plant hynny sydd wedi cael cynnig lle amser llawn mewn dosbarth meithrin ym mis Medi 2020 yn cael cyfle i ymweld â’u hysgolion os bydd yn ddiogel gwneud hynny.

Rwy’n parhau i fod yn ddiolchgar i chi am eich cefnogaeth a’ch amynedd.

Lindsay

Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd